Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar ddydd Mercher, Mai 9fed, 2007 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Cyng Roy Davies, Cyng Edward Thomas, Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Fran Murphy, Cyng Dawn Wallace, Cyng Hugh Towns, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Ros Bellamy
Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Dim

Cyn y cyfarfod cafwyd munud o dawelwch gan yr Aelodau er cof am Mr Mike Lewis, cyn Faer Cyngor Tref Llandeilo Fawr a bu farw'n ddiweddar.

Cof 31 /Mai / 07 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio

E/16029 Man ar gyfer arddangos fel siop ac addasu man i gadw pethau fel rhan o'r siop

E/16037 Peppercorn, 5, Heol y Brenin. Adeilad rhestredig
Sylw : Dim gwrthwynebiad

E/15944 Newid defnydd y llawr gwaelod o fod yn bopty (DOSBARTH A1) ar gyfer bwyd a diod (DOSBARTH A3) yn 44, Heol Rhosmaen
Sylw : Dim gwrthwynebiad, ar yr amod os oes yna elfen o brydau cyflym, bod ystyriaeth yn cael ei roi i faterion y briffordd a mwynderau.

E/15949 Adeiladu maes parcio gorlif a defnydd ar gyfer pum carafán am 18 mis yng Nghae William, Heol Caerfyrddin.
Sylw:

- **Dim gwrthwynebiad i'r Maes Parcio**
- **Gwrthwynebiad i'r carafannau oherwydd eu bod mewn man sydd o fewn golwg ac y byddant yn cael effaith weledol niweidiol ar y Dref.**
- **Yn anffodus mae yna ddiffyg manylder o ran maint, cynllun a phwrpas y carafannau.**

Cof 32 / Mai/ 07 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y cais cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC

E/ 15318 Cadw'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i flaen adeilad yn 109 Heol Rhosmaen.

Cof 33 / Mai/ 07 Ni chafodd unrhyw Geisiadau eu Gwrthod.

Cof 34 / Mai / 07 Apêl Cynllunio

Mae apêl wedi'i gyflwyno i LCC ar gyfer y cais canlynol o ganlyniad iddo gael ei wrthod gan GSC

E/14261 Adeiladu anheddle tri llawr ar safle adeilad sydd wedi'i ddymchwel yn 27, Stryd y Bont.

Cof 35 / Mai / 07 Cludiant a Phriffyrdd

Llythyr gan Trevor Sage yn cydnabod y cais am ymweliad safle yn Stryd y Brenin.

Cof 36 / Mai / 07 Adroddiad ar Lwybrau Troed.

Dim i'w adrodd.

Cof 37 / Mai / 07 Ymgyrch i Lanhau Sir Gaerfyrddin

Adroddodd y Cyng Fran Murphy y bydd hyn yn digwydd ar ddydd Sadwrn, Mehefin 9fed am 10am gan ganolbwyntio ar yr ardal o amgylch ystâd Maes y Farchnad. Mae'r Cyngor wedi cysylltu â Tina Brice o CSC am gymorth. Mae croeso i bawb ddod i helpu.

Cof 38 / Mai / 07 Gohebiaeth

1. Ymgynghoriad Awdurdod Tân ac Achub Gorllewin Cymru. Bydd y Cyng Colin Jenkins yn ymchwilio ac yn gwneud sylwadau ar ran y Cyngor.

2. Clwb Cinio Llandeilo. Chwilio am gefnogaeth y Cyngor ar gyfer ffair fwyd i'w gynnal yn Hen Neuadd y Farchnad yn ystod yr Hydref. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ateb gan nodi fod y Cyngor o blaid y syniad ond roeddynt yn teimlo fod y dewis o leoliad yn hollol anaddas. Dylid ystyried y Neuadd Ddinesig fel dewis amgen. Cynigiwyd gan y Cyng Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng Cllr Hugh Towns.
3. Llythyr gan Miss Hilda Swindells a Miss Thirza Swindells yn cwyno am gyflwr Parc Penlan. Argymhellwyd bod y Clerc yn anfon eu sylwadau ymlaen i GSC sy'n gyfrifol am y parc, ynghyd â chefnogaeth o farn debyg gan y Cyngor. Anfonir copïau at y CS Ieuan Jones. Bydd ateb yn cael ei anfon at y sawl anfonodd yr ohebiaeth.

4. Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo
   Llythyr gan Dr Townsley-Hughes yn gofyn i'r Cyngor ystyried barn yr Ymddiriedolaeth Ddinesig pan fydd yna drafodaethau'n cael eu cynnal mewn perthynas â datblygiadau yng Ngogledd Ddwyrain y Dref. Argymhellwyd y dylai'r Clerc ateb, gan nodi fod y pwyntiau a godwyd ganddynt yn rhai sydd eisoes wedi'u lleisio gan y Cynghorwyr. Anfonwyd copi at Bartneriaeth Davies Richards.

Adroddodd y Cyng Charlotte Leadbeater bod rhai trigolion wedi cwyno fod bolard wedi'i osod wrth y gyffordd â Heol y Cei a Stryd y Bont. Mae'n achosi rhwystr. Argymhellwyd fod y Clerc yn ysgrifennu at yr Asiantaeth Gefnffyrdd yn gofyn am y rhesymau pam y rhoddwyd y bolard yno.

Llythyr gan Bennaeth Ysgol Gymraeg Teilo Sant yn gofyn i Gynghorwyr a fyddent yn fodlon ystyried rhoi hyfforddiant mewn swydd ar Fehefin 11eg i Staff ar nodweddion Llwybr Treftadaeth y Dref. Gwirfoddolodd y Cyng Roy Davies i wneud hyn.

Cof 38a / Mai / 07 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Ni chodwyd unrhyw faterion.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.55 pm.